Penodi i Gyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr

Enwebiadau o'r Trydydd Sector

- **Ydych chi'n aelod o staff, bwrdd, gofalwr neu wirfoddol o sefydliad y trydydd (gwirfoddol) sector yng Ngwynedd?**

- **Hoffech chi wneud gwahaniaeth cadarnhaol i wasanaethau iechyd a bywydau pobl?**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am benodi aelodau gwirfoddol i Gynghorau Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr

Corff gwarchod annibynnol y cyhoedd yng Ngwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru yw'r Cynghorau Iechyd Cymuned. Maent yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd ac yn chwarae rhan bwysig o ran dylanwadu ar y ffyrdd o gynllunio, cyflenwi a gwella gwasanaethau iechyd.
Gwirfoddolwyr yw Aelodau'r Cynghorau Iechyd Cymuned a'u swyddogaeth yw cadw eu llygaid a'u clustiau ar agor er budd cleifion a'r cyhoedd, gwrando ar eu pryderon a gweithio gyda'r gwasanaeth iechyd i wella ansawdd gofal i gleifion.

Mi fydd Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr yn cael ei sefydlu o 1 Ebrill 2010 ymlaen gyda'r Pwyllgorau Lleol isod:

Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam

Bydd Pwyllgorau Lleol gyda thair sedd i aelodau o'r Trydydd Sector, enwebwyd gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol priodol. Mae'r CIC yn chwilio am bobl o bob cefndir – y gofyniad pwysicaf yw bod gennych ddiddordeb gwirioneddol mewn gwella gwasanaethau iechyd i'ch cymuned. Byddai'r sgiliau canlynol yn ddefnyddiol:

diddordeb mewn materion iechyd lleol ac ymwybyddiaeth ohonynt; y gallu i weithio mewn tîm â phobl o gefndiroedd gwahanol; â'r gallu i wrando ar eraill a chyfnewid barn.

Disgwylir i'r aelodau fod ar gael i weithio rhwng 3 a 5 diwrnod y mis. Ni fydd yr aelodau yn cael eu talu ond bydd modd hawlio treuliau. Nodwch, mae'n anghenrheidiol fod eich sefydliad yn dangos cysylltiad clir gyda'r Pwyllgor Lleol priodol.

Cysylltwch â MANTELL GWYNEDD, 23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon LL55 1AD – ymholiadau@mantellgwynedd.com neu sioned@mantellgwynedd.com
☎ 01286 672626

Byddwch yn derbyn pecyn a ffurflen gais er mwyn gwneud gais am enwebiad

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: Dydd Llun 15 Mawrth 2010